# SL(6)545 – Gorchymyn Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol (Cymru) 2024

## Cefndir a diben

Mae'r Gorchymyn hwn yn darparu ar gyfer tâl ac amodau cyflogaeth athrawon ysgol yng Nghymru, i'w penderfynu drwy gyfeirio at y darpariaethau a nodir yn adran 2 o Ddogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol (Cymru) 2024 a chanllawiau ar gyflog ac amodau athrawon ysgol ("y Ddogfen", a gyhoeddwyd yn https://www.llyw.cymru/addysgu-ac-arweinyddiaeth).

Mewn ymateb i'r argymhellion ym mhumed adroddiad Corff Adolygu Cyflogau Annibynnol Cymru, o 1 Medi 2024 ymlaen bydd codiad o 5.5 y cant yn cael ei gymhwyso i bob pwynt graddfa cyflog a lwfans. Mae'r Gorchymyn hwn yn cyflwyno ystodau cyflog a lwfansau newydd yn y fframwaith cyflog cenedlaethol ar gyfer athrawon ysgol mewn ysgolion a gynhelir yng Nghymru yn unig. Mae gan ysgolion nad ydynt yn cael eu cynnal yng Nghymru ryddid a hyblygrwydd i fabwysiadu ystodau cyflog a lwfansau ar gyfer eu hathrawon sy'n adlewyrchu eu hamgylchiadau lleol orau.

Daw'r Gorchymyn i rym ar 28 Tachwedd 2024. Fodd bynnag, bydd y darpariaethau ynghylch cyflog ac amodau athrawon o dan adran 2 o'r Ddogfen yn dod i rym yn ôl-weithredol o 1 Medi 2024 (caniateir yr effaith ôl-weithredol hon o dan Ddeddf Addysg 2002).

## Y weithdrefn

Negyddol

Gwnaed y Gorchymyn gan Weinidogion Cymru cyn iddo gael ei osod gerbron y Senedd. Gall y Senedd ddirymu'r Gorchymyn o fewn 40 niwrnod (ac eithrio unrhyw ddiwrnodau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu, neu (ii) mewn cyfnod o doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y'i gosodwyd gerbron y Senedd.

## Materion technegol: craffu

Nodir y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**1. Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol**

Mae erthygl 2 yn diffinio "athro ysgol" at ddibenion erthygl 2. Fodd bynnag, caiff y term "athro ysgol" ei ddefnyddio yn erthygl 1 hefyd.

Nid yw'n glir pam nad yw'r diffiniad o "athro ysgol" hefyd yn gymwys i erthygl 1 (yn enwedig o ystyried bod erthygl 1 yn nodi'r egwyddor sylfaenol o ran pryd y mae'r Gorchymyn yn gymwys, sy'n golygu ei bod yn ddarpariaeth bwysig).

## Rhinweddau: craffu

Nodir y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn:

**2. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Nodwn y cyfeiriad a ganlyn at gostau yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol sydd wedi'i gynnwys yn y Memorandwm Esboniadol i'r Gorchymyn:

> *Mae cynnydd o 5.5% ar draws yr holl bwyntiau a lwfansau ar raddfa athrawon yn cyfateb i amcangyfrif o gynnydd o £56.07 miliwn i fil cyffredinol cyflogau ar gyfer blwyddyn ariannol 2024-25 (Medi 2024 i Fawrth 2025) a £96.12 miliwn ar gyfer blwyddyn ariannol 2025-26.*
>
> *Fodd bynnag, er mwyn lliniaru effaith y costau hyn ar gyllidebau ysgolion ac awdurdodau lleol, sydd eisoes wedi'u pennu ar gyfer 2024-25, bydd Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid grant ychwanegol yn ystod y flwyddyn drwy Grant Addysg Awdurdodau Lleol i helpu awdurdodau lleol ac ysgolion yn sgil y codiad cyflog.*

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru i'r pwynt adrodd cyntaf.

**Ymateb y Llywodraeth: Gorchymyn Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol (Cymru) 2024**

Pwynt Craffu Technegol 1: Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno â'r pwynt adrodd craffu technegol ac yn ei nodi ar gyfer gorchmynion y dyfodol. Fodd bynnag, ni chredir y caiff neb ei gamarwain gan erthygl 1 o'r Gorchymyn.

## Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn gydag ymateb y Llywodraeth yn ei gyfarfod ar 25 Tachwedd 2024 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd uchod.